Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

# BWRSARIAETH GIG CYMRU AR GYFER CYRSIAU GOFAL IECHYD

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

**Medi 2021** **Nid yw'r Cwestiynau Cyffredin hyn yn berthnasol i feddygaeth na deintyddiaeth.**



*Rhan 1. Gwneud cais am y fwrsariaeth ac ymholiadau wrth astudio*
*Rhan 2. Recriwtio yn ystod eich blwyddyn olaf ac wrth weithio*
*Rhan 3. Cydymffurfio â'r Telerau ac Amodau*
*Rhan 4. Gwneud Cais i adolygu eich amgylchiadau.*

## Cyflwyniad:

Diben Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yw darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio Cyrsiau Addysg Iechyd a'u cymell ar ôl cymhwyso i weithio o fewn y sector gofal iechyd yng Nghymru. Mae'r Cynllun ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cael cynnig llefydd ar Gyrsiau Addysg Iechyd yn unol â Thelerau ac Amodau'r Cytundeb.

Yma cewch atebion i gwestiynau cyffredin am Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Os na allwch ddod o hyd i'r ateb i'ch ymholiad yn y ddogfen hon, a bod eich ymholiad yn ymwneud â gwneud cais am Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru, ewch i wefan Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i gael rhagor o wybodaeth –

https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/addysg-israddedig-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-proffesiynol/bwrsariaeth-y-gig/.

Os yw eich ymholiad yn ymwneud â chydymffurfio â Thelerau ac Amodau Bwrsariaeth GIG Cymru, anfonwch e-bost at AaGIC - HEIW.bursary@wales.nhs.uk

## *Rhan 1. Gwneud cais am y fwrsariaeth ac ymholiadau wrth astudio*

NWSSP sy'n gweinyddu'r cynllun bwrsariaeth a cheisiadau. Ceir gwybodaeth fanwl am sut i wneud cais, pwy sy'n gymwys ac amserlenni ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar eu gwefan –

https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr/gwybodaeth-i-fyfyrwyr/mewngofnodi-a-chwblhau-cais/

### Pa gyrsiau sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?

Gweler *Atodiad 1* am restr o gyrsiau priodol.

### Pwy sy’n gallu gwneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru?

I fod yn gymwys am gymorth ariannol GIG Cymru, rhaid i chi gael eich derbyn am le a gyllidir gan GIG Cymru ar gwrs llawn amser neu ran-amser yng Nghymru.

### Os nad wyf yn dod o'r DU, ydw i’n dal i allu gwneud cais am gyllid?

Mae dinasyddion Iwerddon a'r rhai sydd â statws preswylio yn gymwys. Mae gwladolion yr UE sy'n dechrau ar eu cwrs cyn 01 Awst 2021 yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth.

### Oes raid i mi fyw yng Nghymru i gael mynediad i gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?

Nac oes, does dim rhaid i chi fyw yng Nghymru i gael mynediad i'r cynllun bwrsariaeth. Bydd angen i chi ymrwymo i astudio yng Nghymru ar gyfer y cwrs cyfan ac i weithio yng Nghymru am gyfnod penodol ar ôl cwblhau eich cwrs.

### Rwy'n dod o Gymru ac rwyf am astudio y tu allan i Gymru, ydw i’n gallu cael mynediad at Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru os bydda i’n ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl ei gwblhau?

Dim ond i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio yng Nghymru ac sydd wedi ymrwymo i weithio yng Nghymru ar gyfer y 'Cyfnod Gofynnol' ar ôl cwblhau'r cwrs y mae Bwrsariaeth GIG Cymru ar gael.

### Os ydw i eisoes yn derbyn cyllid gan Gyllid Myfyrwyr, ydw i’n dal i allu gwneud cais am y Fwrsariaeth?

Yn unol â Thelerau ac Amodau GIG Cymru, gofynnir i chi optio i mewn neu allan o'r cynllun bwrsariaeth.  Os byddwch yn optio i mewn i'r cynllun bwrsariaeth, efallai y byddwch ond yn gymwys i wneud cais am y benthyciad cynhaliaeth cyfradd is drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ochr yn ochr â Bwrsariaeth GIG Cymru. Ni fydd gennych hawl i dderbyn y benthyciad myfyriwr llawn a Bwrsariaeth lawn GIG Cymru.

Os byddwch yn optio allan o'r cynllun, dylech wneud cais am y benthyciad cynhaliaeth llawn drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Bydd angen i chi gofrestru eich penderfyniad drwy'r system Cymorth Ar-lein ar gyfer Bwrsariaethau (BOSS) fel bod gennych rif cyfeirnod unigryw (FRSL) i'w anfon at y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fel cadarnhad nad ydych yn optio i mewn i'r cynllun bwrsariaeth.

## Faint alla i ei dderbyn ar gyfer Bwrsariaeth GIG Cymru?

Efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn y cyllid canlynol bob Blwyddyn Academaidd:

- Grant o £1000 sy'n destun Prawf Modd
- Bwrsariaeth heb Brawf Modd
- Ffioedd dysgu
- Lwfansau Ychwanegol h.y. Lwfans Dibynyddion a Lwfans Dysgu i Rieni, Lwfans Gofal Plant, Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael benthyciad myfyriwr gostyngedig (yn amodol ar Reoliadau Cwmnïau Benthyciadau i Fyfyrwyr)

## Beth yw ystyr 'Prawf Modd' a 'Heb Brawf Modd'?

Asesir elfen Prawf Modd y Fwrsariaeth yn erbyn cyfanswm incwm trethadwy eich rhiant/rhieni (neu'ch rhiant a'i briod/partner/partner sifil) neu bartner/priod fel y'i datganwyd ar y cais ac a ddangosir yn y dogfennau ategol a ddarparwyd.

Nid yw'r grant Heb Brawf Modd yn cael ei asesu yn erbyn unrhyw incwm trethadwy ac mae'n grant sy'n daladwy os bodlonir yr holl feini prawf cymhwysedd eraill.

## Sut ydw i'n gwneud cais am y fwrsariaeth?

Gallwch wneud cais am fwrsariaeth y GIG gan ddefnyddio'r ddolen isod cyn gynted ag y byddwch wedi cael cynnig sicr gan y Brifysgol o'ch dewis o le ac o fewn deng wythnos o ddechrau'r cwrs. Ni dderbynnir eich cais ar ôl y dyddiau cau yma o ddeg wythnos. Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais ar gael drwy'r ddolen ganlynol  -  https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr/gwybodaeth-i-fyfyrwyr/mewngofnodi-a-chwblhau-cais/

## Rwyf wedi cael Benthyciad Myfyriwr o'r blaen pan wnes i gwblhau cwrs ychydig flynyddoedd yn ôl, ond pe bawn i eisiau dilyn cwrs newydd, fuaswn i'n gallu gwneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru?

Os nad ydych chi wedi cael cyllid o'r blaen drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru, yna byddwch yn gallu cofrestru a gwneud cais drwy'r system BOSS.

Os ydych chi wedi cwblhau cwrs GIG o'r blaen ac wedi derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru, ni fyddwch yn gymwys a bydd angen i chi ddod o hyd i gyllid arall ar gyfer eich cwrs newydd.

Os cawsoch rywfaint o gyllid o'r blaen ond na wnaethoch gwblhau eich cwrs, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am weddill y cyllid sy'n daladwy. Er enghraifft, dechreuodd myfyriwr ar ei

gwrs 1 Medi 2018 ond rhoddodd y gorau iddo ar 20 Tachwedd 2019. Derbyniodd y myfyriwr 3 mis o daliadau bwrsariaeth. Mae'r myfyriwr wedi penderfynu dechrau cwrs arall ym mis Medi 2020. Byddai angen i'r myfyriwr hunan-gyllido rhan o'i flwyddyn gyntaf a byddai ond yn gymwys ar gyfer y 9 mis ychwanegol o'r fwrsariaeth.

## Ydw i'n gallu gwneud cais am gwrs sy'n cael ei gyllido gan y GIG os ydw i eisoes wedi cwblhau Gradd?

Byddwch yn gymwys ar yr amod nad ydych wedi cael cyllid o'r blaen drwy Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Mae myfyrwyr yn gymwys i gael uchafswm o 3 blynedd o gyllid gyda GIG Cymru (oni bai bod amgylchiadau arbennig yn cael eu cadarnhau gan y Brifysgol) o'r fwrsariaeth.

Os oes gennych radd eisoes a'ch bod yn ymgymryd â rhaglen cyn cofrestru e.e. Cynorthwyydd Meddygon, MSc/Diploma Uwchraddedig Nyrsio, rhaglenni Diploma Uwchraddedig Dieteteg a Diploma Uwchraddedig Therapi Galwedigaethol, gallwch wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru.

## Ydi'r cynllun bwrsariaeth yn caniatáu i mi drosglwyddo i gwrs arall yn yr un Brifysgol?

Bydd rhaid i'r brifysgol a'r comisiynwyr gytuno ar hyn ymlaen llaw. Os yw'r cwrs newydd yn cael ei gyllido gan GIG Cymru (gweler Atodiad 1), efallai y bydd eich cyllid yn parhau. Os nad yw'r cwrs yn cael ei gyllido gan GIG Cymru neu os yw'r holl lefydd ar y cwrs a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn llawn, cewch eich ystyried fel rhywun sydd wedi rhoi'r gorau i'ch cwrs a byddwch yn atebol i ad-dalu elfen o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. Edrychwch ar gymal 7 o Delerau ac Amodau'r Fwrsariaeth

## Ydi'r cynllun bwrsariaeth yn caniatáu i mi drosglwyddo i gwrs/Prifysgol arall yn ystod fy nghwrs?

Bydd rhaid i'r brifysgol a'r comisiynwyr gytuno ar hyn ymlaen llaw. Os yw'r cwrs yn cael ei gyllido gan y GIG (gweler Atodiad 1) a chyda Phrifysgol yng Nghymru, efallai y bydd eich cyllid yn parhau. Os yw'r cwrs y tu allan i Gymru neu ddim yn cael ei gyllido gan y GIG, cewch eich ystyried fel rhywun sydd wedi rhoi'r gorau i'ch cwrs. Mae angen i chi sicrhau eich bod wedi rhoi gwybod i'r Brifysgol am eich penderfyniad i drosglwyddo. Os nad yw'r cwrs newydd yn cael ei gyllido gan y GIG, bydd y taliadau bwrsariaeth yn dod i ben. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i ddyfarniadau myfyrwyr os ydych yn parhau i dderbyn taliadau bwrsariaeth ar ôl i chi orffen. Os na wnewch chi hynny, efallai y bydd yn ofynnol i chi ad-dalu unrhyw gyllid a gewch drwy gamgymeriad ar ôl y dyddiad pan fyddwch yn gorffen y rhaglen

## Ydw i'n gallu newid fy meddwl ac optio allan o'r cynllun Bwrsariaeth?

Mae gennych 10 wythnos o ddechrau'r cwrs i newid eich meddwl. Dylech gysylltu â NWSSP drwy e-bostio - abm.sas@wales.nhs.uk i gadarnhau eich penderfyniad.

Ar ôl y dyddiad cau o 10 wythnos, mewn amgylchiadau arferol ni fyddwch yn gallu newid y llwybr cyllido. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol bydd eich cais i newid llwybr cyllido yn cael ei ystyried. Os hoffech newid y llwybr cyllido, gofynnwch i'ch prifysgol anfon e-bost at HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk gyda sail resymegol yn egluro pam yr hoffech newid. Bydd unrhyw achosion o'r fath yn cael eu hystyried fesul achos a bydd AaGIC yn rhoi gwybod i chi am eu penderfyniad.

## Os bydda i'n gadael y cwrs (yn sgil methu'n academaidd, methu lleoliad, cymhwyster i ymarfer neu salwch) neu'n penderfynu gadael y cwrs cyn gorffen, a fydd yn rhaid i mi ad-dalu cyllid o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru?

Na fydd, ni fyddwch yn atebol i wneud unrhyw ad-daliad. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith os na fyddwch yn cwblhau eich cwrs, yna ni fyddwch yn gymwys i gael eich cofrestru i weithio fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac os ydych yn fyfyriwr blwyddyn olaf ac yn cwblhau eich cwrs yn rhywle arall byddwch yn atebol i ddychwelyd y ffioedd a gawsoch.

## Os bydd angen i mi ailadrodd blwyddyn beth yw'r drefn?

Os bydd yn rhaid i chi wneud blynyddoedd ychwanegol i gwblhau eich cwrs, nid yw hyn yn cael ei gyllido gan y fwrsariaeth a bydd angen i chi ddod o hyd i gyllid arall eich hun.

## Rwyf wedi tynnu'n ôl o fy nghwrs, ydw i'n atebol i ad-dalu unrhyw fwrsariaeth yn unol â Thelerau ac Amodau GIG Cymru?

O dan Delerau ac Amodau GIG Cymru, os ydych wedi tynnu'n ôl rhan o'r ffordd drwy'r cwrs, ni fyddwch yn atebol i wneud ad-daliad. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol o'r canlynol:

a) drwy beidio â chwblhau eich cwrs ni fyddwch yn gymwys i gael eich cofrestru i weithio fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

b) os ydych ar eich blwyddyn olaf ac yn tynnu'n ôl ac yn cwblhau eich cwrs yn rhywle arall, yn ddiweddarach, byddwch yn atebol i ddychwelyd y ffioedd a gawsoch

## Ydw i'n gallu gwneud cais am gyllid myfyrwyr a Bwrsariaeth GIG Cymru?

Os byddwch yn derbyn y fwrsariaeth, byddwch yn gallu hawlio'r benthyciad cynhaliaeth cyfradd is gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ochr yn ochr â'r pecyn bwrsariaeth llawn. Nid oes gennych hawl i hawlio'r benthyciad llawn a bwrsariaeth lawn y GIG.

## Ydw i'n gallu newid llwybr cyllido rhan o'r ffordd drwy fy nghwrs?

Mae hyn yn bosibl fesul achos. Os ydych am newid eich llwybr cyllido, bydd angen i'r SAU gysylltu â HEIC.EdCommissioning@wales.nhs.uk a rhoi sail resymegol i egluro pam yr ydych am newid rhan o'r ffordd drwy eu rhaglen. Yna caiff hyn ei ystyried gan AaGIC a gwneir penderfyniad. Nid yw'n bosibl newid llwybr cyllido rhan o'r ffordd drwy flwyddyn academaidd gan y bydd y ffi dysgu yn cael ei thalu i'r SAU ar ddechrau'r flwyddyn. Os byddwch yn trosglwyddo cyllid yn ystod eich astudiaethau, mae atodlen 2 y Telerau ac Amodau yn nodi'r ad-daliad a fydd yn cronni ar gyfer blwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn eich cwrs.

## Rwyf wedi penderfynu optio allan o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ac rwyf am wneud cais am y benthyciad cynhaliaeth llawn gyda Chyllid Myfyrwyr. Mae fy Nghyllid Myfyrwyr yn dweud fy mod yn derbyn y fwrsariaeth. Beth ydw i'n ei wneud?

Mae gan fyfyrwyr 10 wythnos o ddechrau'r cwrs i optio i mewn neu allan o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru – ni ellir gwneud unrhyw newidiadau ar ôl y dyddiad hwn.

## Mae gennyf gwestiwn ynglŷn â Thelerau ac Amodau Bwrsariaeth GIG Cymru. Gyda phwy ydw i'n cysylltu?

Os hoffech chi drafod y Telerau a'r Amodau gallwch gysylltu â thîm bwrsariaeth AaGIC drwy ebostio HEIC.Bursary@wales.nhs.uk

## *Rhan 2. Recriwtio*

### Pa gymorth sydd ar gael i fy helpu i ddod o hyd i gyflogaeth ar ddiwedd fy nghwrs?

Llwyddiant cyffredinol rhaglen Bwrsariaeth y GIG yw recriwtio i'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru drwy roi cymorth ariannol i fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. Yn ystod y flwyddyn olaf bydd AaGIC yn gweithio gyda myfyrwyr, SAU, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau'r GIG ac yn cefnogi NWSSP i gwblhau proses recriwtio a elwir yn Brosiect Symleiddio i Fyfyrwyr (SSP). Mae'r dull hwn yn gydweithrediad rhwng AaGIC, Byrddau Iechyd GIG Cymru ac Ymddiriedolaethau a NWSSP. Pwrpas y broses yw lleihau unrhyw ddyblygu ymdrechion ar ran y myfyrwyr a'r Byrddau Iechyd gan fod pob swydd wag yn cael ei hysbysebu ar un adeg ar un llwyfan ac un ffurflen gais mae angen i fyfyrwyr ei chyflwyno.

Bydd swyddi gwag nad ydynt yn berthnasol i raddedigion newydd yn cael eu hysbysebu ar wefan Swyddi'r GIG. Felly, bydd disgwyl i fyfyrwyr blwyddyn olaf gymryd rhan lawn yn y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ddod o hyd i gyflogaeth addas ac i gydymffurfio â Thelerau ac Amodau Bwrsariaeth GIG Cymru.

### Oes sicrwydd y bydda i'n cael swydd?

Nid oes sicrwydd y byddwch yn llwyddo i gael swydd, yn enwedig mewn proffesiynau lle mae galw mawr am swyddi gwag cyfyngedig. Bydd AaGIC a'i phartneriaid, gan weithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, yn anelu at sicrhau bod digon o swyddi gwag ar gael ond amgylchiadau lleol fydd y ffactor allweddol bob amser i sbarduno a sicrhau bod digon o swyddi gwag ar gael.

### Ydw i'n gallu dod o hyd i swydd fy hun heb fynd drwy'r cynllun symleiddio?

Os byddwch yn derbyn Bwrsariaeth GIG Cymru cewch eich annog i edrych ar yr holl swyddi gwag sy'n addas ar gyfer graddedigion Gofal Iechyd drwy'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr ac i gymryd rhan lawn. I gael rhagor o wybodaeth am y broses hon, ewch i'r wefan isod

https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr/gwybodaeth-i-fyfyrwyr/mewngofnodi-a-chwblhau-cais/

### Ydi'r cynllun ar gael i bawb sy'n cwblhau eu cwrs?

Ydi. Does dim rhaid i chi fod yn derbyn y fwrsariaeth i gymryd rhan yn y cynllun symleiddio er mai trwy'r cynllun mae'r siawns orau bosibl i chi ddod o hyd i waith yn eich blwyddyn olaf o astudiaethau.

### Oes rhaid i mi weithio mewn rhan benodol o Gymru?

Dydi hi ddim yn ofynnol i chi weithio mewn rhan benodol o Gymru ac fel myfyriwr graddedig newydd cewch eich annog i ddewis gwahanol rannau o Gymru i ddechrau eich gyrfa. Fe'ch cynghorir i ystyried gwahanol Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i gyd-fynd â'ch dyheadau, eich amgylchiadau personol a'ch cynlluniau tymor hir penodol.

### Oes rhaid i mi weithio yn GIG Cymru, neu ydw i'n gallu gweithio mewn Awdurdod Lleol a sefydliadau preifat?

Fesul achos, gallwch ofyn i'ch contract, os yw y tu allan i'r GIG, fodloni gofynion contract y fwrsariaeth. Bydd angen i chi gysylltu â thîm bwrsariaeth AaGIC. Er enghraifft, mae cyflogaeth o fewn awdurdodau lleol a rhai sefydliadau elusennol os ydynt yn gweithredu yng Nghymru yn dderbyniol. Yn gyffredinol, dylech gael swydd yn y proffesiwn y cawsoch eich hyfforddi ar ei gyfer a gweithio am o leiaf 22.5 awr yr wythnos. Er, rydym yn disgwyl i'ch swydd fod yn llawn amser.

### Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n gallu dod o hyd i waith ar ôl y cynllun symleiddio?

Os ydych chi wedi cymryd rhan lawn yn y broses symleiddio a bod tri mis ers i chi gwblhau eich cwrs a'ch bod yn dal i chwilio am swyddi, ond yn dal heb gael cynnig gwaith, rhaid i chi gysylltu â thîm bwrsariaeth AaGIC i drafod eich amgylchiadau. Cysylltwch â HEIW.bursary@wales.nhs.uk

Mae'r opsiynau sydd ar gael i chi yn cynnwys estyniad o'r amser sydd ei angen i ddod o hyd i waith neu gyngor ynglŷn â swyddi gwag sydd ar gael. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl gofyn am Adolygiad o amgylchiadau drwy gwblhau Cais am Adolygiad (gweler rhan 3) ac ystyried cael eich rhyddhau o ymrwymiad y fwrsariaeth. Bydd AaGIC yn ymdrechu i beidio â siomi myfyrwyr neu golli'r buddsoddiad o gronfeydd cyhoeddus ond mewn rhai achosion eithriadol gall hyn ddigwydd.

### Os bydda i'n cael fy rhyddhau ac yn cael swydd yng Nghymru yn y dyfodol, a fydd yr ymrwymiad yn dal i fod yn berthnasol?

Ar ôl i chi gael chi gael eich rhyddhau, does dim disgwyl i chi ddychwelyd i Gymru, ond os bydd swyddi addas ar gael, ar ôl hyfforddi yng Nghymru, efallai y byddwch yn ystyried dychwelyd. Os felly, fyddwch chi ddim yn gorfod ymrwymo i'r fwrsariaeth.

### Pryd fydda i'n gwybod pan fydd fy ymrwymiad i'r Fwrsariaeth yn dod i ben?

Os ydych chi wedi dod o hyd i waith yng Nghymru, bydd y tîm bwrsariaeth yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi pryd fydd eich ymrwymiad i'r telerau ac amodau yn dechrau ac yn dod i ben. Cyfrifir hyn yn dibynnu ar y cwrs yr ydych wedi'i gwblhau a dyddiad dechrau eich cyflogaeth.

## *Rhan tri. Cydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r Fwrsariaeth*

Fe'ch cynghorir i gysylltu â thîm bwrsariaeth AaGIC os oes gennych unrhyw amheuon am eich gallu i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r cynllun bwrsariaeth.

### Os bydda i'n newid cyflogaeth yng Nghymru yn ystod y 2 flynedd gyntaf a oes gan hyn unrhyw oblygiadau?

Cyn belled â'i fod yn gyflogaeth addas ac yn parhau i fod wedi'i leoli yng Nghymru yn y proffesiwn yr ydych wedi cael eich hyfforddi ar ei gyfer ac am gyfartaledd (a all gynnwys mwy nag un rôl Cyflogaeth Addas) o 22.5 awr yr wythnos, mae eich ymrwymiad i delerau ac amodau'r fwrsariaeth yn aros yr un fath. Bydd angen i chi roi gwybod i dîm bwrsariaeth AaGIC a fydd yn diweddaru eu cofnodion i gadw mewn cysylltiad â chi ac os bydd bwlch o ran cyflogaeth, bydd angen addasu eich dyddiad cwblhau terfynol.

### Os bydda i'n sâl ac yn methu â gweithio yn ystod y 2 flynedd gyntaf ar ôl graddio beth yw'r goblygiadau i mi?

Bydd angen i chi ofyn am adolygiad o'ch achos gan ddefnyddio ffurflen Gais am Adolygiad AaGIC y gellir ei lawrlwytho o wefan AaGIC. https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/addysg-

israddedig-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-proffesiynol/bwrsariaeth-y-gig/ Y cam cyntaf fydd asesu pa gymorth os o gwbl, rydych wedi'i gael gan eich cyflogwr neu feddyg teulu i'ch helpu i barhau i weithio ac i wella eich iechyd corfforol a/neu feddyliol

### Os oes gennyf gyfrifoldebau gofalu sy'n fy atal rhag gweithio yng Nghymru, beth ddylwn i ei wneud?

Os yw eich dyletswyddau gofalu wedi cynyddu neu newid ers derbyn y fwrsariaeth, gall hyn ei gwneud yn anodd derbyn swydd neu barhau i weithio yng Nghymru. Os yw hyn yn wir neu os oes gennych gyfrifoldebau gofalu newydd neu gynyddol ers i chi raddio, yna gallwch wneud cais am Adolygiad o'ch amgylchiadau i ystyried y camau nesaf.

## *Rhan pedwar. Sut i wneud cais am Adolygiad o'ch amgylchiadau*

Gallwch ofyn am Adolygiad o'ch amgylchiadau ar ôl cwblhau eich cwrs. Mae sawl canlyniad yn bosibl yn dilyn yr Adolygiad.

- efallai y cewch eich rhyddhau o'ch rhwymedigaethau cytundebol,
- efallai y byddwch yn cael estyniad a chefnogaeth i ddod o hyd i waith; neu
- efallai y bydd yn ofynnol i chi ad-dalu costau ffioedd dysgu'r cynllun bwrsariaeth. Os felly, ni fydd yn ofynnol i chi ad-dalu costau teithio, llety ychwanegol, costau gofal plant, lwfans myfyrwyr anabl, lwfans dibynyddion, a lwfans dysgu i rieni.

Bydd AaGIC yn ystyried eich rhyddhau o'r ymrwymiad fesul achos. Dyma'r amgylchiadau a allai fod yn briodol:

- dim digon o swyddi addas ar gael yng Nghymru o fewn 3 mis i gwblhau eich cwrs
- eich bod wedi cymryd rhan lawn yn y broses recriwtio a drefnwyd gan AaGIC a NWSSP ar gyfer eich proffesiwn ond heb gael swydd (bydd NWSSP yn rhannu gwybodaeth recriwtio y cynllun symleiddio gydag AaGIC)
- eich bod yn methu ag ymgymryd â swydd yr ydych wedi'ch hyfforddi ar ei chyfer oherwydd salwch na ellir ei ddatrys na'i reoli dros gyfnod o amser i'ch galluogi i barhau i weithio neu ddechrau gweithio
- cyfrifoldebau gofalu am aelod agos o'r teulu a ddechreuodd neu a newidiodd yn ystod eich astudiaethau ac a fyddai'n cyfyngu ar eich gallu i barhau i weithio neu ddechrau gweithio yng Nghymru.

Os credwch eich bod yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf hyn, rhaid i chi gwblhau Cais am Adolygiad.

### Sut ydw i'n gofyn am Adolygiad?

Gallwch ofyn am Adolygiad drwy gael mynediad at Ffurflen Gais am Adolygiad. Mae ar gael yn https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/addysg-israddedig-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-proffesiynol/bwrsariaeth-y-gig/. Mae AaGIC yn ymrwymo i gwblhau'r Adolygiad hwn o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn digon o wybodaeth i gwblhau'r Adolygiad. Cewch wybod yn ysgrifenedig am ganlyniad yr Adolygiad.

### Beth os nad wyf yn cytuno â chanlyniad yr Adolygiad?

Os nad ydych yn cytuno, gallwch ofyn am apêl o benderfyniad yr Adolygiad. Gellir cael gwybodaeth am y polisi Apêl, canllawiau ar sut i Apelio a'r ffurflen Gwneud Cais am Apêl

https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/addysg-israddedig-ar-gyfer-gweithwyr-iechyd-proffesiynol/bwrsariaeth-y-gig/. Mae AaGIC yn gweithredu proses Apelio sy'n cyd-fynd â phroses apelio eraill o fewn AaGIC.

## Beth yw'r broses os bydd angen i mi ad-dalu elfen o'r fwrsariaeth?

Os oes angen i chi ad-dalu rhan o'ch bwrsariaeth neu'r fwrsariaeth gyfan, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â thîm bwrsariaeth AaGIC ar HEIW.bursary@wales.nhs.uk Mae manylion yn atodiad 2

### Atodiad 1

| CWRS | MATH A HYD | DARPARWR PRESENNOL |
|---|---|---|
| PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD | | |
| Hylendid a Therapi Deintyddol | BSc – Llawn amser | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd |
| Hylendid Deintyddol | Dip Uwchraddedig – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd |
| Radiograffeg Ddiagnostig | BSc – Llawn amser | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd |
| Dieteteg | BSc – Llawn amser | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr |
| | Dip Uwchraddedig – Llawn amser | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd |
| Therapi Galwedigaethol | BSc – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe |
| | BSc – Rhan-amser | Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | Dip Uwchraddedig/MSc – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd |
| Ymarfer yr Adran Llawdriniaeth | BSc – Llawn amser | Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| Gwyddoniaeth Barafeddygol | BSc – Llawn amser | Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe |
| Cynorthwyydd Meddygon | Dip Uwchraddedig – Llawn amser | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Abertawe |
| Ffisiotherapi | BSc – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr |
| | BSc – Rhan-amser | Prifysgol De Cymru |
| | Dip Uwchraddedig/MSc – Llawn amser | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd |
| Podiatreg | BSc – Llawn amser | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd |
| Radiotherapi ac Oncoleg | BSc – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd |
| Therapi Iaith a Lleferydd | BSc – Llawn amser | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr |
| GWYDDOR GOFAL IECHYD: PTP | | |

| | | |
|---|---|---|
| Awdioleg | BSc – Llawn amser | Prifysgol Abertawe |
| Ffisioleg Gardiaidd | BSc – Llawn amser | Prifysgol Abertawe |
| Peirianneg Glinigol | BSc – Llawn amser | Prifysgol Abertawe |
| Gwyddor Bywyd – Gwaed, Haint, Celloedd a Geneteg | BSc – Llawn amser | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd |
| Niwroffisioleg | BSc – Llawn amser | Prifysgol Abertawe |
| Meddygaeth Niwclear a Ffiseg Radiotherapi | BSc – Llawn amser | Prifysgol Abertawe |
| Gwyddor Anadlol a Chwsg | BSc – Llawn amser | Prifysgol Abertawe |
| NYRSIO | | |
| Oedolyn | BSc/BN – Llawn amser | Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | MSc/Dip Uwchraddedig – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| Plentyn | BSc/BN – Llawn amser | Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | MSc/Dip Uwchraddedig – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| Iechyd Meddwl | BSc/BN – Llawn amser | Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| | MSc/Dip Uwchraddedig – Llawn amser | Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Glyndŵr<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| Bydwreigiaeth | BSc/BN – Llawn amser | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |
| Anabledd Dysgu | BSc/BN – Llawn amser | Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol De Cymru |

## Atodiad 2

### AMSERLEN AD-DALU YN UNOL Â CHYTUNDEB CYLLIDO CYNLLUN BWRSARIAETH GIG CYMRU

| | | Swm y Cyllid sy'n ad-daladwy *** | |
|---|---|---|---|
| | | Cwrs 3 blynedd | Cwrs 2 flynedd |
| 1 | Cwblhau Cwrs Addysg Iechyd ond ddim yn gweithio yng Nghymru yn unol â chymalau 10.1, 10.3 a 12.1.2 o Delerau ac Amodau'r Fwrsariaeth. | £25,500 | £17,000* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Gadael Cyflogaeth Addas fel y nodir yng nghymalau 10.4 a 12.1.3 Delerau ac Amodau'r Fwrsariaeth cyn gwireddu'r ymrwymiad cyflogaeth. | | |
| fi | Wedi gadael o fewn y 6 mis cyntaf | £25,500 | £17,000 |
| Ii | Wedi gadael ar ôl 6 mis ond cyn cwblhau 1 flynedd o wasanaeth | £19,125 | £12,750 |
| Iii | Wedi gadael ar ôl blwyddyn ond cyn cwblhau 18 mis o wasanaeth | £12,750 | £8,500 |
| Iv | Wedi gadael ar ôl 18 mis ond cyn cwblhau 2 flynedd o wasanaeth | £8,500 | DIM |
| yn | Wedi gadael ar ôl 2 flynedd o wasanaeth | DIM | DIM |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Opsiynau trosglwyddo cyllid rhan o'r ffordd drwy'r Cwrs Addysg Iechyd fel y nodir yng nghymalau 9.2 o'r Telerau ac Amodau. | | |
| fi | Yn ystod neu ar ddiwedd blwyddyn gyntaf eich Cwrs Addysg Iechyd gallwch ddewis naill ai i<br>a) ad-dalu'r swm o £8,500 neu<br>b) weithio mewn Cyflogaeth Addas yng Nghymru am 8 mis ar ôl cwblhau eich Cwrs Addysg Iechyd. | £8,500 | £8,500 |
| Ii | Yn ystod neu ar ddiwedd ail Flwyddyn eich Cwrs Addysg Iechyd gallwch ddewis naill ai i<br>a) ad-dalu'r swm o £17,000 neu<br>b) weithio mewn Cyflogaeth Addas yng Nghymru am 18 mis ar ôl cwblhau eich Cwrs Addysg Iechyd. | £17,000 | £17,000 |